



AQA

CCEA

OCR

Pearson

CBAC

Rhif Canolfan Cenedlaethol - Datganiad Pennaeth y Ganolfan 2017/18

Dyma gopi o'r datganiad sydd wedi'i gynnwys yn [niweddariad blynyddol](#) NCN.

Rhaid cadw copi wedi'i lofnodi o'r datganiad hwn yn eich canolfan, a gellir gofyn amdano fel rhan o broses arolygu CGC.

Fel Pennaeth y Ganolfan, rwy'n cadarnhau fy mod innau a fy staff yn ymwybodol o, ac yn glynu wrth y fersiwn diweddaraf o

[Reoliadau Cyffredinol CGC](#) a, lle bo'n berthnasol, y cyhoeddiadau canlynol gan CGC, wrth gynnal arholiadau ac asesiadau:

- [Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol](#)
- [Cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau dan reolaeth](#)
- [Cyfarwyddiadau ar gynnal gwaith cwrs](#)
- [Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau](#)
- [Cyfarwyddiadau ar gynnal asesiadau di-arholiad](#)
- [Amau Camymddwyn mewn Arholiadau ac Asesiadau - Polisiâu a Gweithdrefnau](#)

Yn ogystal, ar gyfer y pynciau sy'n cael eu cyflwyno gan fy nghanolfan, rwy'n cadarnhau fy mod innau a fy staff yn bodloni ein rhwymedigaethau fel y'u gosodwyd gan y manylebau a'r canllawiau cysylltiedig a ddosbarthwyd gan y sefydliadau dyfarnu.

Ar gyfer manylebau sy'n cynnwys asesiad di-arholiad neu ofynion ymarferol penodol, byddaf finnau, fel Pennaeth y Ganolfan, yn sicrhau y bydd pob cam rhesymol yn cael ei gymryd i roi cyfle i'r holl ymgeiswyr ymgymryd â'r canlynol:

- Y gweithgareddau ymarferol a ragnodir (ar gyfer cymwysterau TGAU a Safon Uwch y Gwyddorau a ddyluniwyd i'w defnyddio yn Lloegr)
- Y gymeradwyaeth Iaith Lafar (ar gyfer y cymhwyster TGAU Saesneg Iaith a ddyluniwyd i'w ddefnyddio yn Lloegr).

Sefydlwyd y rheoliadau a'r canllawiau hyn er mwyn sicrhau bod gonestrwydd a diogelwch y system arholiadau/asesu yn cael ei gynnal bob amser ac nad yw'n cael enw drwg. Felly, os na fydd y datganiad hwn yn cael ei gwblhau, bydd yn golygu atal eich statws canolfan, a gallai arwain at gyrff dyfarnu yn tynnu eu cymeradwyaeth ar gyfer eich canolfan yn ôl, fel yr amlinellir yn adran 1 [Rheoliadau Cyffredinol CGC](#).

Mae rhagor o wybodaeth am y gofynion hyn ar gael ar wefan CGC a gwefannau'r sefydliadau dyfarnu unigol.

Enw Pennaeth y Ganolfan (mewn priflythrennau)	Llofnod Pennaeth y Ganolfan	Dyddiad